



## PROSIECT DOLAU DYFI

### DISGRIFIAD SWYDD – SWYDDOG PROSIECT

Mae Prosiect Dolau Dyfi yn cael arian grant gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd drwy Gynllun Rheoli Cynaliadwy y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'n Fenter gyffrous sy'n dod â chadwraeth, ffermio, mynediad a'r celfyddydau at ei gilydd i hwyluso gwella iechyd a lles. Ei nod yw gwella a chreu cynefinoedd blodau gwyllt a darparu cyfleoedd newydd i bobl leol ac ymwelwyr ddod at ei gilydd a helpu i greu gofod gwyrdd hygyrch yn gysylltiedig â'r cynefinoedd hyn er mwynhad a lles. Mae'r prosiect yn chwilio am berson/pobl eithriadol sydd â gwybodaeth leol ragorol i wneud i'r prosiect yma ddigwydd ar y tir yn ystod y 2.5 mlynedd nesaf. Byddwn yn ystyried rhannu'r swydd lawn amser yn ddwy rôl ran amser; un yn darparu'r gweithgareddau rheoli tir a mynediad a'r llall yn darparu'r gweithgareddau celfyddydau a lles. Cofiwch nodi a ydych yn dymuno gwneud cais am un o'r swyddi hyn fel rhan o gynllun rhannu swydd.

Mae rheolaeth gadwraeth ymarferol, tymor hir, gan gynnwys cyflwyno pori i wella ac adfer cynefinoedd sydd â chyfoeth o flodau gwyllt eisoes, wedi'i gytuno a'i gostio yn y prosiect gyda pherchnogion tir lleol. Bydd y Swyddog Prosiect yn hwyluso ac yn cynghori ynghylch y gweithgarwch hwn, a hefyd yn gweithio gyda chymunedau lleol i alluogi gwell mynediad i ofod gwyrdd ar gyfer iechyd a lles, a gweithio gydag artistiaid lleol ar nifer o fentrau creadigol. Bydd y gweithgareddau mynediad a chelfyddydau yn seiliedig ar ymgynghoriad a gynhelir gan y Swyddog Prosiect a fydd yn cynnal digwyddiadau, yn casglu syniadau ac yn datblygu rhaglenni gwaith sy'n denu amrywiaeth eang o bobl ac o fudd iddynt. Hefyd bydd y Swyddog Prosiect yn gwneud gwaith monitro ecolegol ar gyfer y prosiect ac yn goruchwyllo'r monitro cymdeithasol a mynediad.

Bydd Swyddog Prosiect Dolau Dyfi yn gweithio gydag Ecodyfi yn Y Plas Machynlleth ac yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid yn yr ardal, gan gynnwys perchnogion tir lleol, Ecodyfi, Coed Lleol, yr RSPB, artistiaid lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol lleol, cynrychiolwyr mynediad lleol, cynrychiolydd cymunedol, CNC, awdurdodau lleol a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Bydd y Swyddog Prosiect yn adrodd yn ôl i'r Uwch Reolwr yn PONT ac yn gyfrifol am y rheolaeth o ddydd i ddydd ar y Lleoliad i Fyfyriwr. Bydd Grŵp Llywio Dolau Dyfi yn arwain y gwaith ac yn helpu'r Swyddog Prosiect i wneud cysylltiadau yn lleol er mwyn helpu i fwrw ymlaen â'r gwahanol agweddau ar y prosiect.

**Lleoliad: Machynlleth**

**Cyflog: £25,500 (Cyfwerth â Llawn Amser) gyda chyfraniad Pensiwn o 5%**

**Tymor y Contract: 30 Mehefin 2022**

## Pwrpas y Swydd

### Swyddog Prosiect Dolau Dyfi – Cyfrifoldebau penodol

- Ysgwyddo cyfrifoldeb am y cyflawni gweithredol ar gyfer y prosiect o dan reolaeth Uwch Dîm Rheoli PONT.
- Cefnogi'r Grŵp Llywio a grwpiau eraill sydd wedi'u sefydlu ar gyfer y prosiect.
- Arwain ar gyflawni'r strategaeth cyfathrebu.
- Darparu cyngor, arweiniad a chymorth i'r perchnogion tir sy'n rhan o'r prosiect.
- Caffael a rheoli contractwyr.
- Cysylltu ag awdurdodau perthnasol i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Cefnogi datblygiad y gweithgareddau cerdded a gwirfoddol.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r sectorau cadwraeth, mynediad, iechyd a'r celfyddydau i gynnwys cymunedau lleol a hwyluso rhoi'r prosiect ar waith.
- Cynnal monitro ecolegol ledled y prosiect a chefnogi pob agwedd arall ar fonitro, yn ôl yr angen.
- Hybu pob agwedd ar y prosiect a cheisio ymwneud ehangach, gan gynnwys sefydlu Grŵp Dolau Dyfi.
- Trefnu, hybu a chynnal digwyddiadau ymgynghori, gweithdai, digwyddiadau celfyddydol a hyfforddiant.
- Adrodd yn ôl ar amser i Reolwr y Prosiect a'r Grŵp Llywio.
- Rheoli dyraniadau'r gyllideb yn unol â'r cais.
- Codi ymwybyddiaeth o'r prosiect drwy fynychu sioeau a threfnu digwyddiadau.
- Helpu i recriwtio ar gyfer y lleoliad i Fyfyriwr a'i reoli o ddydd i ddydd.

### Y PROFIAID, YR WYBODAETH A'R SGILIAU RYDYM YN CHWILIO AMDANYNT

#### Profiad

- Cymhwyster perthnasol a phrofiad ymarferol ym maes rheoli tir er budd cadwraeth natur.
- Profiad ymarferol o reoli da byw.
- Profiad o gyflwyno monitro ecolegol.
- Profiad o feithrin a chynnal perthnasoedd gyda phobl o wahanol sectorau, gan gynnwys cadwraeth, ffermio, iechyd a'r celfyddydau.
- Profiad o drefnu a chyflwyno gweithgareddau ymgysylltu, fel ymgynghoriadau, digwyddiadau awyr agored, gweithdai.
- Profiad o reoli staff, gwirfoddolwyr, contractwyr a chyllidebau bychain.
- Profiad o gynllunio a rheoli gwaith gwelliannau mynediad ar y cyd â grwpiau a sefydliadau diddordeb lleol.

## Gwybodaeth

- Gwybodaeth leol dda am ardal Dolau Dyfi, gan gynnwys ei diwylliant, ei threftadaeth, y gymuned ffermio, y cynefinoedd a'r heriau presennol.
- Gwybodaeth am ofynion lles anifeiliaid.
- Gwybodaeth ragorol am ddeddfwriaeth a pholisïau perthnasol i reoli tir a gwaith mynediad, neu i bwy ddylid gofyn am gyngor.
- Gwybodaeth weithredol am y cysylltiadau rhwng iechyd, gweithgarwch awyr agored a byd natur a sut gellir hwyluso mwy o ddefnydd o adnoddau naturiol er lles iechyd.
- Dealltwriaeth o'r celfyddydau a sut gellir eu defnyddio i annog a denu cynulleidfaoedd newydd.

## Sgiliau

- Mae gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hynod ddymunol.
- Gallu meddwl yn greadigol am heriau lleol a hwyluso ymgysylltu â chynulleidfa ehangach i sicrhau perchnogaeth gymunedol ar y prosiect.
- Sgiliau rhyngpersonol rhagorol sy'n eich galluogi i flaenoriaethu, cynllunio a chyflwyno gwaith ar eich pen eich hun a gydag eraill.
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau.
- Sgiliau TG gan gynnwys GIS a meddalwedd cyhoeddi bwrdd gwaith.
- Sgiliau llafar ac ysgrifenedig rhagorol gan gynnwys profiad o siarad gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd a'u denu.
- Sgiliau i ddatblygu consensws drwy ymgynghori fel bod modd bwrw ymlaen â dull gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer gwahanol agweddau ar y prosiect e.e. gwaith celfyddydau a mynediad.
- Sgiliau trefnu a gweinyddu rhagorol a gallu cyrraedd targedau a chadw at ddyddiadau cau, gan gynnwys gallu defnyddio prosesu geiriau, taenlenni, basau data a'r rhyngwyd.

## Ceisiadau a dyddiad cau

Rhaid i chi gyflwyno eich cais ar y ffurflen gais sydd wedi'i hatodi. Dylai eich cais fynd i'r afael â'r wybodaeth, y gofynion o ran profiad a'r sgiliau penodol sydd wedi'u nodi uchod a dylid defnyddio enghreifftiau i ddangos eich bod yn addas ar gyfer y swydd.

Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n rhannu swyddi. Efallai y byddwn yn fodlon ystyried secondiad oddi wrth gyflogwr presennol ar gyfer ymgeiswyr addas.

Nid oes angen i ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am y swyddi hyn yn y gorffennol ailymgeisio.

Am ragor o fanylion cysylltwch â: Julia Korn: 07421994860 neu Jan Sherry: 07421994861

**E-bostiwch eich cais at:** [admin@pontcymru.org](mailto:admin@pontcymru.org)



## **Dyddiad cau: 5pm Dydd Gwener 8 Tachwedd 2019.**

Cynhelir y cyfweiliadau **Dydd Llun 18 Tachwedd 2019**. Bydd yr ymgeiswyr hynny a ddewiswyd i gael cyfweiliad yn cael gwybod erbyn **Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2019**. Os na fyddwch wedi clywed gennym erbyn y dyddiad hwn, dylech gymryd yn ganiataol nad yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus. Yn anffodus, nid oes gan PONT gyllideb i dalu am gostau cyfweiliad.

**PWYSIG:** Bydd yr holl ohebiaeth ynghylch eich cais yn cael ei hanfon drwy e-bost. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu cyfeiriad e-bost y gallwn ei ddefnyddio i gysylltu â chi o fewn yr amserlen uchod.

**NODWCH:** Mae'r swyddi hyn yn amodol ar gyllid allanol sydd wedi cael ei ddiogelu. Fodd bynnag, mae PONT yn cadw'r hawl i dynnu'r swyddi gwag yn ôl, neu, yn amodol ar gyfnodau rhybudd statudol, i derfynu'r penodiadau, os na fydd arian ar gael am unrhyw reswm.

**Cyfeiriad cofrestredig:** PONT, D/O Cymdeithas Eryri, Caban , Brynrefail, Caernarfon, LL55 3NR.